Cofnodion Drafft cyfarfod Blynyddol a Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu yn y Ganolfan Gymdeithasol am 7.30 ar y 1.5.25

Yn Bresennol

Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Helen Johns, Cyngh. Annwen Hughes, John Evans, Luise Vassey, Robin Ward, Kevin Titley, Cyngh. Gwynfor Owen.

Ymddiheuriadau

Nia Jones.

|Hefyd yn bresennol ar y cychwyn y cyfarfod ydoedd Ben Yuill. Cafwyd adroddiad ganddo am sefyllfa Heddlu yr ardal. Mae Bellach yn gweithio fel Heddwas yn ardal Bermo – Llandanwg. Heddweision o Port yn gyfrifol o Llandanwg ymlaen am Harlech.

Gobeithio gweld heddweision llawn amser o Bermo - 24 awr. Mae PCO's yno hefyd, a mwy o fynd o amgylch ar droed. Hyn yn welliant sylfaenol.

Angen ffonio 101 neu 999 am unrhyw ymholiadau cyffredinnol

Angen cysylltu efo'r heddlu os yw'r ceir yn dal I barcio ar y palmant ger Plas Newydd.

Diolchwyd iddo am ei gyfraniad a'r wybodaeth.

Aethpwyd ymlaen gan ddilyn yr agenda.

Buddiant – AH gyda materion ceisiadau cynllunio rhag ofn y bydd y cais yn cael ei alw I Bwyllgor Llawn.

Cais Cynllunio – NP5/62/63K

Tir safle cwn hela – tu ol I Gapel Salem

Ail gyflwyno cais am osod 8 pod ar y safle. Y cais blaenorol am 10 pod. Wedi derbyn e bost gan asiant y tir feddiannwr hefyd, yn atgoffa y Cyngor bod yma gais wedi ei ennill ar apel am leoli adeilad gwaredu anifeiliad marw yma. Fel safle casglu.

Nododd y Cyngor bod yn rhaid bod yn gyson efo ceisiadau o'r fath.

Tybed a yw 8 pod gwyliau yn ormod ar safle yma sydd yn SSI. Hefyd mwy o draffic.

Holi hefyd a yw hwn o fewn cynllun datblygu Parc Cenedlaethol?

Anfon sylwadau hyn.

Cofnodion Cyfarfod diwethaf – eu derbyn fel rhai cywir

Gair gan y Cadeirydd – Adroddiad Blynyddol 2025 gan y Cadeirydd – I'w roi ar y wefan

Diolch I bawb am eu cymorth yn ystod y flwyddyn ac I bawb am roi I fyny hefo hi!

Son am y prif ffocws yn ystod y flwyddyn – ail siawns am ffordd liniaru – gobeithio dod I fwcwl, a gweld dechrau arni. Peth Gwaith wedi ei wneud er mwyn sicrhau y cais cynllunio.

2 cysgodfan – ger Hafan Artro a Vic. Nifer yn diolch am rhain. Ond bod sbwriel yn casglu o'I cwmpas. Angen rhoi potiau blodau yn ol ger y safle Hafan Artro.

Never Cut hefyd yn edrych yn dda. Neis gweld pobl yn eistedd yma. Angen diolch I drigolion rhif 2 - trwshio bin a thacluso.

Dal I gyfrannu at y toiledau cyhoeddus.

Mynychu cyfarfod Un Llais Cymru. – Y bwriad cyn hir fydd uno Cynghorau.

Llwybrau – siom nad oes neb yn tendro am waith torri llwybrau. Nododd Luise bod llwybr 62 yn gerddadwy. Yn falch o'r pyst pren sydd ar y llwybr – I nodi'r daith.

Angen mabwysiadu polisiau –

1.5.25 Adroddiad Ariannol

Derbyn arian presept £14500

Talwyd ym mis Ebrill y canlynol

Cyfieuthu £95

SLCC Aelodaeth £80

Un Llais Cymru £147

Mis Mai angen talu:-

Torri hen Fynwent £150

Play Inspection Wales £222 (gan gynnwys TAW)

Insurance y Cyngor £669.06

Neuadd Rhent £20.00

Buddiant, Lwfansau, Asesiad Risg, Eiddo /rhestr.

Angen hefyd ail edrych ar polisi insurans – hyn I'w drafod eto.

Angen ail edrych ar polisi Bioamrywiaeth, a'I fabwysiadu.

Angen hysbysu'r Trigolion lleol iddynt anfon at y Cyngor os ydynt eisiau gweld unrhyw welliant neu awyddus am rywbeth newydd ar gyfer y Pentref. Wish list fel petai I'r Cyngor drafod. (Arian yn brin ar gyfer prosiectau mawr yn anffodus)

Bod y Clerc yn barod I anfon manylion cyllid at yr archwiliwr mewnol maes o law.

Dewis Swyddogion am y flwyddyn 2025/2026

Cadeirydd – Jane Taylor Williams.

Is Gadeirydd – Eirwyn Thomas.

Y Fynwent – AH, ETh, Clerc.

Cae Chwarae – KT, JE.

Huchenfeld – HJ, KT, LV

Neuadd – pawb ond LV.

Llwybrau – LV a JTW.

Adnoddau y Cyngor – ETh, Clerc

Un Llais Cymru – JTW, ETH

Materion Eraill o'r Cyngor

- Mater o dalu am goeden wedi ei thorri oedd dros lwybr cyhoeddus – perchnogaeth preifat. Angen gwybod pwy sydd yn gyfrifol am dalu'r anfoneb? Pasiwyd bod y Clerc yn anfon at Gwyn Evans – adran llwybrau Cyngor Gwynedd. Hefyd I gysylltu gyda'r tirfeddianwr I roi eglurhad o beth sydd yn digwydd.
- Adroddiad Cyllid – yn y banc Ebrill 29 = £13770.70

Diwedd Ebrill derbyn presept o £14500.00

- Pasiwyd I fabwysiadu rheolau ariannol NALC – ru rhoi ar y wefan
- Adroddiad Mynwent – gwagio y bin, neu mynd a'r bin oddi yno. Diwrnod clirio 17.5.25 am 10.30. Angen ffurflen asesiad risg ar gyfer y diwrnod yma.

Nododd Eirwyn Thomas bod safle gwaredu gwastraff yn brysur lenwi. A cherrig o'r beddrodau yn casglu. Angen edrych ar y sefyllfa yn y diwrnod 17 o Fai I weld beth fydd y gorau I'w wneud.

Bydd y pris o'u gwaredu yn codi os byddwn yn ei adael am hir eto.

- Adroddiad Cae Chwarae

Wedi derbyn adroddiad manwl gan Play Inspection Wales am gyflwr offer cae plant. Risg bach iawn Y Clerc wedi cysylltu gyda G.L.Jones Bethesda, ond heb gael ymateb ganddo hyd yma.

- Ymgynghoriad Ffordd Liniaru

Diwrnod cau am hwn 6.5.25

Y Clerc wedi anfon y llythur ymlaen at Llinos Angharad a Weltag.

JTW wedi derbyn ambell e bost parthed hyn hefyd. Un yn arbennig gan David Nailor, Harlech. Yntau wedi anfon awgrymiadau ymlaen iddynt parthed adroddiad "impact report", a dyfodol Gwaith a photensial o waith yn y Camp.

Adroddiadau Cynghorwyr Sirol

Annwen Hughes –

1. nododd bod Gwaith I fod I ddigwydd Sadwrn 3ydd ochr allan I'r Wenallt. Ond bod perchnogion caffi yno yn gwrthod symud y ceir. Gosod gwifrau fibre optic oedd y bwriad.
2. Car ym mhentre Gwynfryn dal yn achosi problemau. Yn rwystr ar y ffordd.
3. Ceir yn mynnu parcio ar linellau dwbwl.
4. Car yn parcio ar y palmant ger Plas Newydd – angen ffonio 101, a hefyd I'r Clerc anfon lluniau at Iwan ap Trefor. Rhoi ar fb hefyd.

Gwynfor Owen –

Yn nodi ei fod wedi mynychu Cyngor llawn heddiw. A bod

gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn wynebu colled o hyd at £65m oherwydd y cynnydd I ysiwriant gwladol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan.

Felly bydd Cynghorau Cymru yn gweld colled llwyr wrth I'r Llywodraeth ddefnyddio'r Fformiwla Barnett I benderfyny faint o arian sy'n cael ei roi I wledydd datganoledig. Mae'r fformiwla Barnett yn seiliedig ar faint y boblogaeth yn hytrach na'r angen. Hyn yn anheg – Cymru y n eu colled unwaith eto.. Miliwn yn brin yn Gwynedd. Ac felly yn gorfod ei dros glwyddo I'r drethdalwyr. Cymru ddim yn cael y gwir daliad gan Sant Steffan.

Adrodd am Wasanaethau tren - a bod Mabon ap Gwynfor yn brwydro am y gwasanaethau hyn.

Er gwybodaeth hefyd bydd Etholiad Seneddol a bydd Meirionnydd yn rhan o ardal fwy – o Aberdaron I Powys gyda 6 aelod ar draws ardal anferth.

Cyfarfodydd Eraill

CCTV - Yn ddiweddar bu I RW, JTW a ETh gerdded o amgylch y Penref er mwyn gweld y lleoliadau gorau ar gyfer lleoli rhain. Sawl camera sydd ei angen?

Wedi cael lluniau o'r safleoedd posib.

Pasiwyd I wahodd Rich RJ Electrics I gerdded eto ym mis Mehefin. Yna cael cyfarfod yn y Neuadd a cael yr heddlu yn bresennol hefyd.

Nododd y Clerc bod Ysgol Gynradd Llanbedr yn gefnogol I gael camera ger y Neuadd.

Materion Eraill a godwyd

1. Nododd y Clerc bod yr Ysgol Gynradd yn ddiolchgar am y cyfraniad ariannol y llynedd.
2. Nododd hefyd bod cais wedi dod o'r Cylch Meithrin yn gobeithio am gefnogaeth ariannol eleni. Hyn yn y gyllideb.
3. Tir ger Glennydd – perchnogaeth pwy? Aros am fwy o fanylion.
4. Nododd ETh – bod y gwirfoddolwyr Cae Deiliog yn dechrau cefnu ar eu dyletswyddau.
5. Bod problem wedi bod gyda'r dudalen we – pethau arno fo ond ddim yn weladwy. Hyn oherwydd cwmni word press a bod angen safio pob tudalen ar wahan.
6. Nododd KT bod twrnamentt peldroed ar 24.5.25

Hefyd angen hyrwyddo'r cae pel droed – a fydda gan Glwb ieuenctid Dyffryn ddiddordeb mewn defnyddio'r cae?

7. Nododd JTW bod diwrnod agored gardd Cypla 18.5.25
8. Nododd Clerc bod hi'n ddathliad VE Day. A oes angen rhoi y fflagiau ar y gof golof.? Pasiwyd I wneud hyn. Eu gosod ar mast llawn fel dathliad .
9. Un o'r cyn gynghorwyr yn holi am y map llwybrau a'r fainc. Y Clerc wedi ateb gan ddeud bod y mater yn nwylo Cyngor Gwynedd I ail leoli'r map llwybrau a hefyd gostwng y palmant a hefyd ail leoli'r fainc.